Ysgol Gymunedol Trimsaran Community School

Egni a lwydd

Cyflwyniad

Fe sefydlwyd Ysgol Trimsaran yn 1875 o dan arweinyddiaeth y prifathro Mr Thomas Sylfan Jones.

Fe'i sefydlwyd ar safle buarth yr adran Iau bresennol ger mynedfa Heol Waun y Clun. Sefydlwyd Ysgol Fabanod ar wahân yn 1895 o dan brifathrawiaeth Mrs M. Jones.

Ond, oherwydd cynnydd yn nifer y plant a dirymiad yr adeilad fe adeiladwyd Ysgol Fabanod newydd sbon (o aluminium sbâr y rhyfel) ac fe'i hagorwyd yn 1955. Erbyn 1962 roedd rhif y plant wedi cynyddu oherwydd mewn-lifiad o weithwyr o Loegr ac fe ddechreuwyd ffrwd "Saesneg" i gyd-rhedeg gyda'r un Gymreig. Mae'r drefn yma wedi parhau hyd heddiw.

Agorwyd adeilad 'Iau' newydd yn 1968 ac fe ddymchwelwyd yr hen ysgol i wneud lle i 'fuarth' newydd yr Ysgol Iau. Yn 1975 fe adeiladwyd adran Feithrin bwrpasol yn yr Ysgol Fabanod. Galluogodd hyn i'r ysgol dderbyn plant tair blwydd oed.

Yn 1989 fe ymunodd y ddwy ysgol o dan brifathrawiaeth Mr Wynn Jenkins. Apwyntiwyd y prifathro presennol, Mrs S Owen yn 2010.

Ysgol Gymunedol Trimsaran Community School

Mae lle i dderbyn 325 o ddisgyblion yn yr ysgol ond ar hyn o bryd 164 sydd ar y llyfrau. Mae'r cyfleusterau o fewn yr ysgol yn caniatau hyblygrwydd yn y dull o ddysgu'r plant h.y. ôl eu hanghenion – fel unigolion, grwpiau bach neu fel dosbarth cyfan.

Mae adeilad y Babanod yn gofalu am anghenion addysgiadol plant y "Blynyddoedd Cynnar" a'r Babanod, tra bod addysgu'r plant Iau yn mynd ymlaen yn y prif adeilad.

Bwriad yr ysgol yw cynnig cyfleusterau rhagorol i ddysgu a hamddena i'r plant ac i'r gymuned. O fewn yr ysgol mae 'na ddwy neuadd a dwy ystafell gyfrifiaduron sy'n cynnwys rhwydwaith o bymtheg cyfrifiadur. Mae bwrdd electronig ac o leiaf dau gyfrifiadur ymhob dosbarth.

Gweledigaeth ein Hysgol

Creu awyrgylch o hapusrwydd, gofalgar ac ysgogol yn ein gweledigaeth. Awyrgylch sy'n hyrwyddo chwilfrydedd, brwdfrydedd, eiddgarwch a pharch lle bydd plant yn adnabod a chyrraedd eu potensial llawn. Ddylai pob plentyn deimlo'n werthfawr ac yn falch o'u diwylliant a'u hetifeddwch er mwyn iddynt allu gwneud y cyfraniad gorau i gymdeithas.

Credwn:-

- ***Os yw plentyn yn byw gyda beirniadaeth – mae'n dysgu condemio.***
- ***Os yw plentyn yn byw gyda gelyniaeth – mae'n dysgu ymladd.***
- ***Os yw plentyn yn byw gyda gwawd – mae'n dysgu swildod.***
- ***Os yw plentyn yn byw gyda chywilydd – mae'n dysgu teimlo'n euog.***
- ***Os yw plentyn yn byw gyda goddefgarwch – mae'n dysgu amynedd.***
- ***Os yw plentyn yn byw gydag anogaeth – mae'n dysgu hyder.***
- ***Os yw plentyn yn byw gyda chanmoliaeth – mae'n dysgu gwerthfawrogi.***
- ***Os yw plentyn yn byw gyda chwarae teg – mae'n dysgu cyfiawnder.***
- ***Os yw plentyn yn byw gyda chlod – mae'n dysgu i'w hoffi ei hun.***
- ***Os yw plentyn yn byw gyda thynerwch – mae'n dysgu addfwynder.***
- ***Os yw plentyn yn byw gyda chymeradwyaeth a chyfeillgarwch – mae'n canfod cariad yn y byd.***

Tra bod eich plentyn yn yr ysgol ein bwriad fydd i gysylltu â chi yn rheolaidd ar ddatblygiad a chynnydd eich plentyn. Cofiwch mae croeso i chi ddod i'n gweld unrhyw bryd, yn enwedig os oes rhywbeth yn eich poeni. Mae addysg eich plentyn yn bwysig i ni ac mae'r bartneriaeth rhwng yr ysgol a'r cartref yn holl- bwysig.

Darllenwch y llyfryn yma ac os oes unrhyw gwestiwn gennych cysylltwch â ni ar 01554 810670 neu e.bostwch ni ar:- staff.trim@ysgolccc.org.uk

Ysgol Gymunedol Trimsaran Community School

Staff yr Ysgol
Athrawon:

Mrs Sharon Owen	Pennaeth
Mrs Meryl Trussler	Meithrin
Miss Delyth Ungoed	Derbyn
Miss Hannah Madge	Blwyddyn 1
Mrs Alison Goodwin	Blwyddyn 2
Mr Glyn Jones	Blwyddyn 3/4
Miss Catrin Roberts	Blwyddyn 5/6
Mr Gareth Harry	Year 4/5/6

N.N.E.B:

Mrs Elizabeth Lewis	Meithrin

Cynorthwywyr Addysg Dosbarth:

Mrs Avril Beard
Mrs Anne Frater
Mrs Eirlys Emanuel
Miss Ffion Bunyan
Mrs Denise Bates
Mrs Irene Owens
Mrs Sarah Calford
Mrs Melanie Jenkins
Miss Catrin Pugh

Cyfrifiaduron:

Mrs Caron Millon

Clerigol:

Mrs Lynne Bridgewater	Swyddog Gweinyddol
Mrs Irene Owens	Prydiau Bwyd

Gofalwr/Glanhawyr:

Mr Stewart Williams	Gofalwr
Mrs Sharon Worth	Glanhawr
Mrs Linda Phillips	Glanhawr
Mrs Angeline Emanuel	Glanhawr

Ysgol Gymunedol Trimsaran Community School

Gwasanaeth Bwyd:

Mrs Beryl Williams	Cogyddes
Mrs Gwenda Frater	Cynorthwywraig
Mrs Teresa Morgan	Cynorthwywraig
Mrs Christine Jones	Cynorthwywraig

Arolygwyr Amser Cinio:

Mrs Irene Owens	Arolygwr amser cinio
Mrs Jayne Evans	Arolygwr amser cinio
Mrs Linda Phillips	Arolygwr amser cinio
Mrs Melanie Beckett	Arolygwr amser cinio
Miss Clare Hollands	Arolygwr amser cinio
Ms Jacqueline Phillips	Arolygwr amser cinio
Mr Stewart Williams	Arolygwr amser cinio

Llywodraethwyr yr Ysgol:

Cyng. Mrs M. Gravell	A.A.L.	
Mr M. Warren	A.A.L.	
Mrs M. J. James	A.A.L.	Cadeirydd
Mrs S.J. Davies	Rhiant	Is-Gadeirydd
Mr W. Thomas	Rhiant	
Mrs A. Evans	Rhiant	
Mrs A. Studley	Rhiant	
Mr D V Lloyd	Cymunedol	
Mr C. Blackwell	Cymunedol	
Mrs A. Stock	Cymunedol	
Cyng. Mrs C. M. Lloyd-Jenkins	Cymunedol Ychwanegol	
Mrs A. Beard	Staff	
Mr G. Jones	Athro	
Mrs S Owen	Pennaeth	

Adran Addysg Leol:

Cyngor Sir Caerfyrddin
Adran Addysg
Rhif ffon: 01267 234567

Ysgol Gymunedol Trimsaran Community School

Dull Mynediad

Mae "talgylch benodedig" gan Ysgol Gymunedol Trimsaran ac erfynwn i unrhyw blentyn sy'n trosglwyddo atom o ysgol arall i fyw o fewn y ffin ysgol. Mae map o'n talgylch i'w weld yng nghefn y llyfryn.

Gall unrhyw deulu sy'n symud allan o'r ardal gadw eu plant yn yr ysgol neu symud nhw i'r ysgol sy'n gwasanaethu yr ardal newydd. Yn ôl y rheol gall unrhyw frawd neu chwaer gofrestru yn ein hysgol ni, hyd yn oed os ydynt yn byw tu allan i'r dalgylch, os oes o leiaf un plentyn yn yr ysgol yn barod.

Unwaith yr ydych wedi darllen y llyfryn yma a llenwi'r "ffurflen mynediad ysgol" fe hoffwn eich croesawu chi a'ch plentyn/plant i'r ysgol. Cewch gyfle i edrych o gwmpas yr ysgol ac i ofyn unrhyw gwestiwn/gwestiynnau. Felly, cysylltwch â ni i wneud apwyntiad.

Trefn Mynediad

Derbyniwn blant i'n "Meithrin" tair gwaith y flwyddyn – Mis Medi, Mis Ionawr a Mis Ebrill. Mae addysg ran-amser ar gael i unrhyw blentyn ar ôl ei drydydd penblwydd a fedrant ddechrau ar ddiwrnod cyntaf y tymor canlynol. Y ddyddiadau tyngedfennol yw Medi 1af, Ionawr 1af ac Ebrill 1af. Ar ôl un tymor o addysg rhan-amser fe gynnigir lle llawn-amser i'ch plentyn. Er mwyn hwyluso'r trefniadau mae'n bwysig cofrestru eich plentyn yn gynnar.

Rydym yn gwahodd chi a'ch plentyn i'r ysgol ar y dydd Mawrth ola o'r tymor cyn i'ch plentyn ddechrau. Bydd Mrs Owen, y pennaeth dros dro ar gael i egluro rhediad yr ysgol ac i'ch tywys o gwmpas tra bod eich plentyn yn ymgartrefu yn yr Uned Feithrin am tua awr.

Fe fydd cyfleoedd ar gael i ofyn cwestiynnau ac i gwrdd â gwahanol oedolion a fydd yn gyfrifol am addysgu eich plentyn. Rhoddir manylion a phrospectws i chi yn y cyfarfod yma.

Ysgol Gymunedol Trimsaran Community School

Y Cwricwlwm

Ysgol categori A/B yw Ysgol Gymunedol Trimsaran h.y. mae iddi ddwy ffrwd ieithyddol. Er mwyn sicrhau dwyieithrwydd, Cymraeg fydd yr iaith arweiniol yn y Cyfnod Sylfaen 3-7. O hynny mlaen yng Nghyfnod Allweddol 2 (7-11) fe fydd yr iaith arweiniol yn amrywio. Drwy weithredu'r polisi yma y gobaith yw bydd safon da o ddwyieithrwydd gan pob plentyn wrth adael yr ysgol yn unarddeg.

Mae yna nifer o fanteision dros bod yn ddwyieithog:-

- Cyfranogiad cyflawn ym mywyd diwylliannol y Gymuned.
- Dysgu iaith arall a fydd yn helpu gyda ieithoedd eraill.

Mae ymchwil wedi profi bod plant dwyieithog yn:-

- fwy hyblyg a chreadigol yn eu ffordd o feddwl.
- yn fwy deallus yn sawl maes yn bedair a pum mlwydd oed.
- yn well wrth ddal gafael are eu prosesau meddwl.

Beth os nad ydych yn siarad Cymraeg?

- Nid yw rhieni rhan fwyaf o blant yn ysgolion dwyieithog Cymru ychwaith – ond meant yn ymdopi yn iawn er eu bod yn dod o deuluoedd Saesnigaidd.
- Hyd yn oed os nad ydych yn siarad Cymraeg, bydd eich agwedd chi tuag at yr iaith yn gallu gwneud gwahaniaeth i'ch plentyn.

Beth am ei Saesneg ef/hi?

- Peidiwch â gofidio. Os edrychwch ar ganlyniadau arholiadau yng Nghymru – hyd yn oed yn Saesneg (Iaith a Llenyddiaeth) – mae'r plant hynny sy'n mynychu ysgolion dwyieithog yn well o lawer na'r cyfartaledd cenedlaethol.
- Mae plant mewn ysgolion dwyieithog yn medru datblygu eu sgiliau ysgrifennu yn fwy effeithiol na phlant mewn ysgolion Saesneg yn unig.

Ysgol Gymunedol Trimsaran Community School

Y Cwricwlwm Cenedlaethol

Fe fyddwn yn addysgu eich plentyn yn ôl gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol.

Mae'r ddarpariaeth a gynnigir yn Ysgol Gymunedol Trimsaran yn hybu pob agwedd o ddatblygiad plentyn. Drwy ddilyn y cwricwlwm cenedlaethol mae pob plentyn yn cael y cyfle i gyflawni'r safon uchaf bosib yn rhifedd a llythrennedd gan sicrhau hyder yn y sgiliau corfforol, artistig, ymarferol a chymdeithasol.

Fe gynnigir addysg eang a chytbwys sy'n caniatau bod anghenion unigol bob plentyn yn addas iddyn nhw o fewn cynllunio a dysgu da.

Pynciau dysgu yn cynnwys:-

- Celf
- Dylunio a Thechnoleg
- Saesneg
- Cymraeg
- Daearyddiaeth
- Hanes
- Technoleg Gwybodaeth
- Mathemateg
- Cerddoriaeth
- Ymarfer corff
- Addysg Bersonol a Chymdeithasol
- Addysg Grefyddol
- Gwyddoniaeth

Mae cynllunio'r cwricwlwm yn golygu bod pob athro/athrawes yn sicrhau dilyniant a chynnydd yn addysg eich plentyn fel mae'n mynd drwy'r ysgol. Fe gynllunir y gwaith yn ôl gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol.

Addysg Grefyddol a Moesol

Cynhelir gwasanaethau yn rheolaidd drwy'r ffydd Gristnogol a dysgir am grefyddau eraill y byd i'r plant. Gellir wneud trefniadau arbennig petaech am gadw'ch plentyn allan o'r gwasanaethau dyddiol.

Ysgol Gymunedol Trimsaran Community School

Rhieni a'r Cwricwlwm

Mae cymorth a help rhieni yn hanfodol i addysg plentyn. Golyga hyn helpu gyda darllen, rhifedd a chyfnerthu sgiliau allweddol a.y.y.b. Croesawn eich help hefyd gyda ymweliadau addysgol, nofio, trefnu trafnidiaeth i gystadlaethau chwaraeon, helpu'r plant gyda'i gwaith ac ati. Ein bwriad yw gwneud y defnydd gorau posib o holl gyfleusterau ac adnoddau'r ysgol sy'n cynnwys athrawon a rhieni. Chwiliwn am lefelau uchel o gyraeddiadau ymhob ardal o'r cwricwlwm yn enwedig yng ngwaith darllen, ysgrifennu a rhif. Rhaid adeiladu ar sylfaen gryf er mwyn i'r plant ddeall y pethau elfennol cyn symud ymlaen.

Dyna paham, yn 1990-00 fe weithredon ni'r Strategaeth Llythrennedd Cenedlaethol ac yn y flwyddyn 2000-01 fe gyflwynon ni'r Strategaeth Rhifedd Genedlaethol. Ym Mis Medi, 2000 fe weithredon ni'r Cwricwlwm 2000. Ers hynny rydym wedi parhau i adolygu ac i goethu'r cwricwlwm a'r ffordd o'i gyflwyno i sicrhau ei fod yn cwrdd ag anghenion y plant. Yn 2002 fe gyflwynwyd "rhaglen ieithyddol" o'r enw POPAT (Programme of Phenological Awareness Training) yn yr Uned Feithrin/Babanod a gyda phlant o'r Adran Iau oedd yn cael trafferth ieithyddol.

Yn y flwyddyn 2003, fe gyflwynwyd y cyfieithiad Cymraeg o POPAT. Yn ddiamau, fe fydd yn ofynnol i ysgolion i gyflwyno ac i weithredu mwy o fentrau yn y blynyddoedd i ddod, ac fel y bydd hyn yn digwydd fe fyddwn yn eich cadw mewn cof ac yn rhoi unrhyw wybodaeth newydd i chi ynglyn ac addysg eich plentyn.

Dull o weithredu Cwynion

Os oes cwyn gan unrhyw riant ynglyn a'r cwricwlwm neu unrhyw fater o fywyd ysgol, y man cyntaf i gysylltu â yw'r ysgol. Rydym wedi sicrhau polisi agored gyda rhieni ac rydym yn hyderus y gall y mwyafrif o broblemau gael eu datrys drwy siarad â'r athrawon dosbarth. Sut bynnag, os na fydd y mater ym medru cael ei ddatrys fe fydd cymorth y pennaeth ar gael. Os fyddwch yn dal i fod yn anhapus yna cewch ddogfen swyddogol yr ysgol ynglyn ag achwyniadau er mwyn cymeryd y cam nesa' i ddatrys unrhyw broblemau.

Trosglwyddo'r Cwricwlwm

Trosglwyddir y cwricwlwm mewn dwy ffordd – yn ôl pwnc ac yn draws-gwricwlaidd. Mae'r ddwy fordd yn werthfawr ac yn cyfrannu tuag at addysg y plant.

Mae'r ffordd 'bynciol' yn gweithredu drwy ddysgu pynciau ar wahan e.e. Mathemateg, Gwyddoniaeth, Cymraeg a Saesneg. Fe ddysgir gwybodaeth a sgiliau o bwnc arbennig i'r plant er mwyn ymestyn eu lefelau cysyniadol.

Ysgol Gymunedol Trimsaran Community School

Mae'r ffordd draws-gwricwlaidd yn golygu dysgu sawl pwnc drwy "thema" e.e. fe fydd y pwnc 'Ein hunain' yn cynnwys gwaith gwyddonol, gwaith ysgrifennu (Cymraeg/Saesneg), archwilio Mathemategol, gwaith Crefft ac ati. Mae'r dull yma o ddysgu yn helpu'r athro/athrawes i osod y sgiliau a ddysgwyd yn y pynciau eraill mewn trefn. Gellir ymestyn y sgiliau amrywiol yma er mwyn i'r plant weld eu gwerth.

I atgyfnerthu'r deallusrwydd, y wybodaeth a'r sgiliau a ddysgwyd drwy'r "dull pynciol" gall y plant ddatrys problemau, gwneud darganfyddiadau, cyfathrebu ac eraill ac ati. Dysgir y plant i fod yn **ymwybodol** o ba sgiliau meant yn defnyddio yn y "gwaith testunol" yma h.y. Mathemategol, Gwyddonol ac ati. Fe gynllunir pob gwaith testunol er mwyn sicrhau ei fod yn addas ac yn gyflenwol i lefelau'r pynciau dysgu.

Yn wir, mae plant cyn lleued â thair yn medru dysgu sut i ddefnyddio a throsglwyddo sgiliau ar yr amod bod y fframwaith a'r sylfaen yno iddynt. Hyd yn oed o ddiwrnod cynta'r plentyn yn yr ysgol mae hi/ef yn derbyn strwythur cydbwys a strwythedig sy'n anghenreidiol i sicrhau llwyddiant yn eu dysgu.

Dull o Ddysgu

Trwy gydol addysg eich plentyn fe weithredir amryw o ddulliau dysgu – ffurf dosbarth cyfan, grwp bach neu ddysgu'n unigol. Mae 'na le i'r cyfan i sicrhau cwricwlwm cytbwys a datblygiedig.

Mewn unrhyw ddosbarth o 20-25 o blant fe fydd na ymrywiaeth o allu sy'n cynnwys rhai sydd angen peth cymorth cyffredinol, rhai ble mae popeth yn dod yn rhwydd iddynt neu rai sy'n cael trafferth/rhagori yn un ardal o'r cwricwlwm.

Mae grwpio plant yn ôl lefelau eu deallusrwydd yn caniatau'r athro i ganolbwyntio ar y cam nesaf yn eu dysgu. Bydd pob grwp yn medru symud ymlaen yn ôl eu gallu. Mae grwpio plant yn y pynciau craidd sef, Mathemateg, Cymraeg, Saesneg a Gwyddoniaeth yn fuddiol.

Gweithredir y grwpiau mewn sawl ffordd. Weithiau disgwylir i grwp o blant weithio ar un dasg a phob plentyn yn datrys elfen unigol o'r dasg yna h.y. (gweithio fel tîm) a phob un o aelodau'r grwp yn cyfrannu. Gweithredir ymchwiliadau gwyddonol yn y dull yma'n aml.

Cyflwynir cysyniad newydd i grwp o blant ac fe roddir esboniad trylwyr ar y cysyniad yma. Yna fe ddisgwylir i'r plant weithio'n unigol ar y gwaith newydd. Er bod y plant wedi dysgu fel grwp meant yn medru gweithio nawr yn annibynnol ar y tasgiau a roddwyd iddynt. Fe fydd Mathemateg, Cymraeg a Saesneg yn cael eu dysgu yn y ffordd yma'n aml.

Mae dysgu "ar y cyd" yn rhan bwysig iawn o addysg y plentyn. Gwneir hyn adeg ymarfer corf, amser stori, cerddoriaeth/canu a rhai ardaloedd o'r pynciau craidd. Mae'r penderfyniadau yma ynglyn â'r dull o ddysgu i'w gweld yn cynlluniau wythnosol manwl yr athrawon.

Ysgol Gymunedol Trimsaran Community School

Plant ag Anghenion Arbennig.

Mae anghenion arbennig unigol plentyn yn nwylo'r athro dosbarth. Sut bynnag, ar adegau mae angen cymorth ychwanegol ar ambell i blentyn – nail ai oherwydd anhawster cyffredinol neu anhawster pynciol e.e. Mathemateg. Pan fydd hyn yn digwydd fe fydd cymorth ar gael i'r athro dosbarth drwy ddwylo'r athro sy'n gyfrifol am Anghenion Arbennig drwy'r ysgol. Darperir raglen addas o waith i helpu'r plentyn gyda'i anhawsterau. Weithiau problem dros dro yw ef a thro arall bydd angen help ar y plentyn drwy gydol ei yrfa ysgol. Petai angen mwy o gymorth arnom fe fyddem yn galw ar Adran Anghenion Arbennig y Sir. Gyda phlant ac anawsterau difrifol mae yna ddulliau ar gael i'w helpu – drwy roi "datganiad" iddynt sy'n galluogi'r ysgol i gael staff ychwanegol, mwy o adnoddau a chyfarpar, rhaglenni gwaith addas ac ati. Cynhelir Adolygiad Blynyddol a gwahoddir y rhieni a phawb sydd yn gweithio gyda'r plentyn i'r cyfarfod er mwyn asesu datblygiad y plentyn ac i osod targedau yn unol a'r anghenion.

Trwy gydol addysg eich plentyn yn Ysgol Gymunedol Trimsaran fe wneir dyfarniadau ysglyn â'r ffordd orau o gwrdd ag anghenion eich plentyn. Petai angen therapi lleferydd, fe fyddwn yn cysylltu â chi ar unwaith.

Fel rheol, mae'r athro dosbarth yn sylwi pan mae angen cymorth ychwanegol ar blentyn ond weithiau y rhieni yw'r cyntaf i sylwi. Os ydych yn pryderu, neu am unrhyw wybodaeth ynglyn a'ch plentyn, yna cysylltwch â ni yn yr ysgol. Mae'n hanfodol bwysig i cael cyfathrach dda rhwng y cartref a'r ysgol.

Nid yw plant yn medru perfformio'n gyson bob dydd. Fel oedolion, mae nhw hefyd yn cael "diwrnod chwith" – oherwydd noson hwyr, cynnwrf penblwydd, tostrwydd ac ati ac mae hyn yn ddealladwy. Mae angen gofidio pan fydd y "diwrnod chwith" yma'n mynd yn rheolaidd ac yn arwydd bod rhywbeth mwy difrifol yn bod ar y plentyn. Weithiau gall genedigaeth babi achosi hyn neu dostrwydd aelod o'r teulu neu hyd yn oed pan fydd y rheini yn gwahanu. Mae'n holl-bwysig i ni, fel ysgol fod yn ymwybodol o'r ffeithiau yma er mwyn cefnogi eich plentyn. Fe fydd unrhyw wybodaeh a rhoddir yn cael ei gadw'n gyfrinachol acond y pobl angenrheidiol fydd yn cael gwybod y ffeithiau. Gall hyn helpu'ch plentyn a cynnig cymorth iddynt i ymdopi â sefyllfa anodd.

Ysgol Gymunedol Trimsaran Community School

Trefniadau Asesu a Recordio

Fe asesir perfformiadau a chynnydd pob plentyn yn rheolaidd drwy gydol ei gyrfa ysgol. Mae'n ofynnol yn ôl y Cwricwlwm Cenedlaethol i asesu plant ar adegau gwahanol o'u addysgu. Beth bynnag, mae'r mwyafrif o'r asesu yn cymeryd lle'n ddyddiol.

Prif nod asesu a recordio gwaith y plant yw:-

- ***I gael darlun cywir o'r hyn y gall pob plentyn wneud h.y. y sgiliau a'r cysyniadau â gyflawnwyd ac a ddeallwyd.***

Mae'r wybodaeth yn galluogi'r athro i gynllunio gwaith y plant ac i greu cynnydd drwy osod gwaith mwy heriol.

- ***I ganfod bylchau yng ngwybodaeth deallusrwydd y plentyn.***

Mae asesiad manwl yn medru amlygu ardaloedd ansicr a gwan yn natblygiad y plentyn ac yn galluogi'r athro i helpu'r plentyn gydag anawsterau.

- ***I sicrhau dilyniant a chynnydd yn y plentyn wrth symud drwy'r ysgol.***

Mae athro newydd plentyn yn cael gwybodaeth addas am allu'r plentyn ac yn medru gweithio ar y sgiliau sydd ganddynt o'r athro blaenorol.

- ***I fedru mynegi cynnydd y plentyn i'r rhieni.***

Cynhelir "Noson Rhieni" ym Mis Hydref ac ar ddiwedd y flwyddyn academaidd, sef Mis Gorffennaf.

- ***I drosglwyddo lefelau cyrhaeddiad y plentyn i'r ysgol Uwchradd.***

Trefnir ddull ffurfiol ac anffurfiol o asesu yn Ysgol Gymunedol Trimsaran. Mae'r asesu anffurfiol yn cymeryd lle'n ddyddiol pan fod athrawon yn gweithio'n agos gyda'r plant. Yn aml, bydd yr athrawon yn cadw cofnodion personol am bob plentyn ond nid yw rhain yn rhan o'r system recordio swyddogol yr ysgol. Mae'r asesu ffurfiol yn cynnwys profion ynglyn ac asesiadau athro. Cedwir y canlyniadau mewn lle canolog. Ceir ffeil unigol ar bob plentyn yn yr ysgol hefyd.

Asesir y plentyn ymhob ardal o'r cwricwlwm ond mae 'na bwyslais ar y pynciau craidd, sef Mathemateg, Cymraeg, Saesneg a Gwyddoniaeth.

Cedwir ffeiliau ar ein disgyblion sy'n dangos y cynnydd a wneir gan y blentyn o ddosbarth i ddosbarth ac yn ein galluogi i gael gwybodaeth am y plentyn ar unrhyw adeg.

Ysgol Gymunedol Trimsaran Community School

Record y Plant

Cedwir ystod o wybodaeth am bob ddisgybl mewn ffeil. Cedwir y manylion a rhoddwyd i ni gan y rhieni ar ein system cyfrifiadurol.

Mae'r record yma yn cynnwys:-

- Gwybodaeth cyffredinol h.y. cyfeiriad, rhif ffôn mewn argyfwng, gwybodaeth feddygol a dderbyniwyd oddi wrth y rhieni.
- Llyfryn y disgybl yn cynnwys canlyniadau asesu.
- Taflen dracio sy'n cynnwys targedau a chanlyniadau.
- Record presenoldeb – tymhorol a blynyddol.
- Gwybodaeth ar anghenion arbennig – taflenni targedau.
- Taflenni "caniatad blynyddol".
- Adroddiadau blynyddol.
- Unrhyw wybodaeth ychwanegol gan athrawon unigol sy'n cynnwys nodiadau anffurfiol ar gynnydd y plentyn.
- Mae llyfrau gwaith y plant yn ffordd o gadw cofnod o'r gwaith a gwblhawyd ymhob ardal o'r cwricwlwm. Cedwir lyfrau gwaith y plant, hyd yn oed pan fyddant yn newid dosbarthiadau er mwyn cael cofnod hir o'u cynnydd.

Ysgol Gymunedol Trimsaran Community School

Gwybodaeth Amrywiol

Absenoldebau

Sylwyd fod cynnydd yn nifer "absenoldebau plant" oherwydd gwyliau, a bod rhai teuluoedd yn cymeryd mwy nag un gwyliau y flwyddyn yn ystod amser ysgol. Yn ôl y gyfraith mae hawl gan blentyn i fynd ar ei wyliau am ddeg diwrnod y flwyddyn adeg tymor ysgol. Os yw plentyn yn absennol am fwy na hyn heblaw am dostrwydd, fe fydd rhaid ystyried yr absenoldeb yn absenoldeb heb ganiatâd. Mae amserlen dysgu'r "Cwricwlwm Cenedlaethol" yn dynn ac mae'n anodd i athrawon i ymdrin â gwaith â gollwyd drwy absenoldebau disgyblion.

A fyddech mor garedig a danfon llythyr ffurfiol i'r ysgol os fydd eich plentyn yn mynd ar wyliau adeg ysgol.

Mewn sawl achos, mae nifer o absenoldebau trwy wyliau neu dostrwydd yn medru cael effaith amlwg a difrifol ar gynnydd plentyn. Fe ofynnwn i chwi, felly i feddwl yn ddwys am dynnu'ch plentyn allan o'r ysgol ar yr adeg yma.

Bydd absenoldebau awdurdodedig ac anawdurdodedig yn cael eu recordio a'u cynnwys yn adroddiadau'r plant yn flynyddol ym Mis Gorffennaf.

Adroddiad cofnod mynychu Ysgol Gymunedol Trimsaran am y flwyddyn 2009-2010:-

Cyfartaledd Presenoldeb	*91.02%*
Cyfradd absenoldebau awdurdodedig	*5.47%*
Cyfradd absenoldebau anawdurdodedig	*3.50%*

Petai plentyn yn absennol, dylai rhieni gysylltu â swyddfa'r ysgol cyn gynted ag sydd bosib er mwyn egluro rheswm yr absenoldeb ac hefyd i ddweud pa mor hir y bydd y plentyn bant o'r ysgol. Gellir gwneud hyn drwy ffonio, danfon neges ffacs, tecst, e-bost neu drwy ddanfon nodyn i'r ysgol.

Mae'n bwysig i chi gadw'ch plentyn bant o'r ysgol am o leiaf 24 awr os yw wedi cael afiechyd o'r stumog er mwyn arbed haint/heintiau rhag cyrraedd eraill yn yr ysgol.

Pynciau Ychwanegol

Cynigir siawns i'ch plentyn ddysgu offeryn yn yr ysgol, sef y ffidil, recorder neu'r gitâr. Dysgir y plant gan athrawon peripatetig.

Disgwylir ganiatad oddi wrth y rhieni i'r plant gael y gwersi yma.

Os yw plentyn yn mynychu'r gwersi yma fe fydd rhaid iddynt gael eu tynnu allan o'r dosbarth ynghanol gwers ac oherwydd hyn dim ond un offeryn y cynigir iddynt.

Ysgol Gymunedol Trimsaran Community School

Addysg Rhyw

Bwriad polisi'r ysgol yw i gynnal datblygiad personol, gymdeithasol ac emosiynol y plant er mwyn iddynt gael profiad, gwybodaeth a dysgu sgiliau sy'n eu galluogi i gymeryd rhan weithgar mewn cymdeithas.

Atebir pob cwestiwn a ofynir yn onest, ffeithiol a naturiol i alluogi'r plentyn i gadw'n ddiymatal.

Rhoddir ystyriaeth bob amser i oedran, tueddfryd, aeddfedrwydd emosiynol a chredoau'r plentyn.

Mae'r holl faterion sy'n gysylltiedig ag addysg rhyw yn cael eu trafod mewn ffordd gariadus a gofalgar. Pwysleisir ystyriaethau foesol yn ôl gwerthoedd bywyd teuluol. Ceir cymorth i blant Blwyddyn 5 a 6 gyda'r gwaith yma oddi wrth nyrs yr ysgol.

Dosbarthiadau

Fel arfer, mae'r dosbarthiadau wedi eu trefnu i gynnwys grwpiau plant o ddwy flynedd ysgol. Gan amlaf, ceir rhwng 20 a 30 o ddisgyblion ymhob dosbarth. Weithiau mae yna lai o nifer mewn ambell i ddosbarth.

Gweithgareddau Chwaraeon Allgyrsiol

Mae'r ysgol yn ymfalchio yn ei thraddodiadau diwylliannol ac ym myd chwaraeon. Anogwn cymaint o'r disgyblion ag sydd bosib i gymeryd rhan mewn chwaraeon. Ein nod yw i bob plentyn i gynrychioli'r ysgol erbyn iddynt ein gadael. Credwn yn ardderchogrwydd a mâs gyfranogaeth a gellir cyflawni'r cyntaf drwy'r llall. Yn y flwyddyn academaidd 2003-2004, llwyddodd yr ysgol yn y gweithgareddau canlynol:-

- **Pencampwyr Athletau dan do Llanelli a'r Cylch.**
- **Pencampwyr Athletau awyr agored Llanelli a'r Cylch.**
- **Pencampwyr Decathlon Llanelli.**
- **Pencampwyr cwis Bobby Busters Llanelli a'r Cylch.**
- **Eilion gorau Athletau dan do Sir Gaerfyrddin.**
- **Eilion gorau Decathlon Sir Gaerfyrddin.**
- **Eilion gorau Rownderi pêl-feddal Llanelli a'r Cylch.**
- **Eilion gorau pêl-droed i ferched Llanelli a'r Cylch.**
- **Enillwyr gêm gynderfynol pêl-rwyd Llanelli a'r Cylch.**
- **Enillwyr gêm gynderfynol pêl-droed Llanelli a'r Cylch.**

Yn ychwanegol i hyn:-

Ysgol Gymunedol Trimsaran Community School

- **Cymerodd dros 70 o ddisgyblion rhan yn Eisteddfod Leol yr Urdd – canu, dawnsio, adrodd. Cyrhaeddodd un o'n digyblion y rownd derfynol yn Eisteddfod yr Urdd yn Llanarchaeron.**
- **Cystadlodd dros 90 o blant yng nghystadlaethau Crefft, Celf, Gwyddoniaeth, Dylunio a Thechnoleg, Graffig Cyfrifiadurol.**
- **Perfformiodd dros 30 o ddisgyblion cerddorfa'r ysgol yng Nghyngerdd y Proms Ieuenctid.**

Cynhelir sawl clwb yn yr ysgol e.e. y Clwb Brecwast o 8.15-8.45yb. Hefyd cynhelir clybiau amser cinio neu ar ôl ysgol e.e. Urdd, athletau, Clwb Cŵl, côr ac ati. Mae gwybodaeth am fywyd yr ysgol a llwyddianau'r disgyblion yn cael ei ddanfon i'r rhieni'n rheolaidd fesul cylch-lythyrau.

Newidiadau mewn Amgylchiadau

Petai eich cyfeiriad neu'ch rhifau cyswllt mewn argyfwng neu trefniadau casglu'ch plentyn o'r ysgol yn newid a fyddech mor garedig a chysylltu â'r ysgol ar unwaith, er mwyn i ni nodi'r trefniadau/rhifau diweddaraf sydd gennym ar ffeil. Cofiwch ofyn am ffurflen newydd o'r swyddfa pan fo angen.

Dyddiadau Gwyliau 20010-2011

Tymor yr Hydref	
Dyddiadau'r Tymor	02.09.10 – 22.12.10
Hanner Tymor	25.10.10 – 29.10.10 (yn gynwysiedig)
Tymor y Gwanwyn	
Dyddiadau'r Tymor	05.01.11 – 15.04.11
Hanner Tymor	21.02.11 – 25.02.11 (yn gynwysiedig)
Tymor yr Haf	
Dyddiadau'r Tymor	03.05.11 – 18.07.11
Hanner Tymor	30.05.11 – 03.06.11 (yn gynwysiedig)

Gwnewch nodyn o'r dyddiadau yma fel cyfeirnod yn y dyfodol agos.

Ysgol Gymunedol Trimsaran Community School

C.R.A.

Mae gennym Gymdeithas Rhieni ac Athrawon weithgar yn Ysgol Gymunedol Trimsaran sydd wedi codi miloedd o bunnoedd i'r achos dros y blynyddoedd. Defnyddiwyd yr arian i brynu cyfarpar amrywiol trud i'r plant ddefnyddio. Er bod cyllid yr Awdurdod Lleol yn addas i brynu cyfarpar hanfodol, mae gweithgareddau'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon wedi sicrhau y gall yr ysgol gynnig adnoddau ychwanegol i'r plant.

Cyflwynwyd cyfres o gyfrifiaduron newydd 'Applemacs', cyfarpar adeiladu a wâl dringo i'r ysgol ac mae'r oll yma a mwy wedi eu rhoddi er mwyn lles y plant.

Mae'r Gymdeithas wedi cynnal sawl digwyddiad gymdeithasol dielw i'r plant ag oedolion i gryfhau'r ymdeimlad o gymuned ym mhlith ein gilydd.

Croesawir unrhyw aelod newydd i'r Gymdeithas felly os oes diddordeb gennych i chwarae rhan weithredol ynddi cysylltwch â'r ysgol. Y Cadeirydd eleni yw Mrs Sarah Jane Davies, Ysgrifenyddes Mrs Paula Hardy a'r Trysorydd Mrs Alex Einon.

Iechyd, Diogelwch a Lles

Mae iechyd, diogelwch a lles y plant yn ein gofal yn holl-bwysig i ni. Dilynir ystod o rheolau a pholisiau gan bawb ar y staff. Pwysleisir pwysigrwydd pethau fel diogelwch yn yr ysgol, gwarchod amser cinio, gwagio'r adeiladau mewn argyfwng, gofal meddygol, gweithgareddau tu allan i'r ysgol, defnydd o'r cyfarpar diogelwch ac ati. Mae gan yr ysgol Gôd Ymddygiad clir i'r plant ei ddilyn yn wastad.

Gofynwn i chi ein cefnogi ni yn hwn drwy atgyfnerthu'r gwerthoedd sydd o'i fewn. Fe fydd pob athro'n trafod y Côd o bryd i'w gilydd ac yn atgoffa'r plant o'r amgylchfyd i ni am greu yn ein hysgol. Gwelir y Côd Ymddygiad o fewn ein polisi Disgyblaeth a cheir copi o'r ysgol ar unrhyw adeg.

Côd Ymddygiad yr Ysgol: Rheolau Euraidd

Byddwch yn dyner.
Byddwch yn garedig ac yn barod eich cymwynas.
Gofalwch am eich eiddo.
Gweithiwch yn galed.
Gwrandewch ar bobl.
Byddwch yn onest.

Ysgol Gymunedol Trimsaran Community School

Gwaith Cartref

Credwn bod gwaith cartref yn rhan bwysig o addysg plentyn ac fe erfynwn arnoch fel rhieni i gefnogi eich plentyn gyda'r gwaith a baratowyd. Erfynwn ar blant o'r Dosbarth Derbyn hyd at Blwyddyn 6 i gwblhau gwaith cartref. Gwahanieithir y gwaith yn ôl oedran a gallu'r plentyn h.y. taflenni gwaith Mathemategol, Cymraeg a Saesneg, paratoi gwaith 'cywaith', cynllunio gweithgareddau ar lythrennedd, adolygu ac ati.

Rhoddir amserlen gwaith cartref i'r rhieni yn ystod chwech wythnos cynta'r flwyddyn academaidd er mwyn iddynt fod yn ymwybodol o'r hyn sy'n ddisgwyliedig.

Cyfnod Allweddol 1

Mae gwaith cartref y Babanod yn cynnwys darllen a dysgu geiriau. Anaml iawn y bydd gwaith ysgrifenedig ynghlwm wrth hwn.

Hwyrder Plant

Gall hwyrder plant achosi aflonyddwch diangen i'r dosbarth. Gall effeithio ar y cofrestru, rhifau cinio a llaeth ac ati. Cenir y gloch am 9.00 y.b. (Iau) a 9.10 y.b. (Babanod) a dylai'r plant fod ar y buarth ychydig funudau cyn yr amser penodedig yma. Os bydd plentyn yn cyrraedd y dosbarth yn hwyr fe fydd yn cael 'marc hwyr'. Petai'r marciau hwyr yma'n cynyddu fe fyddwn yn cysylltu â'r rhieni.

Fe ddeëllir yr ysgol yn iawn os bydd plentyn yn hwyr oherwydd apwyntiad meddygol ond fe fyddem yn ddiolchgar petaech yn medru rhoi gwybodaeth i'r ysgol o flaen llaw petai hyn yn digwydd.

Gwybodaeth Feddygol

Cyflawnir asesiad iechyd ar eich plentyn yn ei flwyddyn gyntaf yn yr ysgol. Fel rhan o'r asesiad fe fydd eich plentyn yn cael ei bwyso a'i fesur ynghyd â chwblhau prawf gweledol a chlyw.

Os oes unrhyw bryderon gennych ynglyn â chlyw eich plentyn gall nyrs yr ysgol drefnu i'ch plentyn gael prawf arbennig. Fe wneir yn union yr un peth ynglyn â golwg eich plentyn. Mae'r profion yma'n cael eu cwblhau fel mater o drefn pan mae'r plentyn yn saith a deg mlwydd oed.

Mae'n bwysig nodi na chaniateir unrhyw ffeddyginiaeth – dim ond rheini sy'n helpu diffyg anadl (asthma) neu epilepsy. Felly, dim ond anadlwyr sy'n dderbyniol yn yr ysgol ac fe gedwir y rhain mewn lle diogel i'r plant yn ystod y dydd.

Os yw'ch plentyn yn gorfod cymeryd meddyginiaeth am dymor hir ac yn gorfod derbyn hwn yn ystod diwrnod ysgol cysylltwch â ni i sicrhau'r trefniadau.

Ysgol Gymunedol Trimsaran Community School

Llaeth a Dŵr

Rhoddir llaeth yn rhad ac am ddim i blant 3-7 (dosbarthiadau'r Meithrin a'r Babanod). Anogir y plant i yfed dŵr drwy gydol y dydd. Darperir dŵr hidledig i'r plant yn y ddau adeilad. Y rieni sy'n gyfrifol am lendid poteli'r plant.

Cyfleoedd Cyfartal

Ein bwriad ni yw darparu cyfleoedd cyfartal i bob plentyn yn yr ysgol – beth bynnag yw eu oed, rhyw, hil, gallu neu gefndir. Erfynwn iddynt gyflawni eu llawn botensial yn ystod eu dyddiau ysgol gennym – yn enwedig y plant hynny sydd dan anfantais corfforol. Ein nod yw i sicrhau bod pob plentyn yn medru cyrraedd ei potensial drwy weithio ar ein disgwyliadau, agweddau a'n hegwyddorion.

Costiau a Thaliadau

Polisi'r Corff Llywodraethol yw i beidio â chodi tâl am hyfforddiant gwersi cerddoriaeth, gwersi, cystadleuaethau chwaraeon neu ddiwylliannol.

Disgwylir tâl i asiantaethau allanol/darparwyr fel yr Urdd (Bl 1-6) neu i Ganolfan Breswyl Pentywyn (Bl 6).

I sicrhau ymarferoldeb gwibdeithiau'r ysgol, fe gofynir am gyfraniad oddi wrth rhieni ar adegau.

Profion y Cwricwlwm Cenedlaethol (TASAU)

Er nad yw'r profion cenedlaethol ar ddisgyblion saith ac unarddeg oed yn stadudol mwyach, mae'n rhaid i ysgolion ddarparu asesiad athro ar gynnydd pob plentyn i'r rhieni. Gwneir hyn ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 1 a Chyfnod Allweddol 2.

- Disgwylir i ddisgybl canolig saith mlwydd oed gyrraedd lefel 2 ar ddiwedd CA1.

- Yn yr un modd, disgwylir i blentyn unarddeg mlwydd oed gyrraedd lefel 4 ar ddiwedd CA2.

Ysgol Gymunedol Trimsaran Community School

Oriau'r Swyddfa

Mae'r swyddfa'n gweithredu yn nwylo Mrs Lynne Bridgewater rhwng 8.50 y.b. a 4.00 y.p. (Llun-Gwener).

Parcio

Nid oes hawl gan riant i dreiddio maes parcio'r ysgol heb ganiatad y pennaeth.

Erfynwn arnoch i ufuddhau rheolau'r ffordd a'r maes parcio i wneud yr ardal tu allan i'r ysgol yn fwy diogel i'r plant.

Gofynnwn i chwi i beidio â pharcio ar y llinellau igam-ogam melyn ar yr heol nac hefyd gyferbyn a mynedfa'r ysgol.

Taflenni Caniatad

Oherwydd gwibdeithiau addysgol, cystadleuthau pêl-droed a phêl-rwyd ac ati mae'n hanfodol i ni gael caniatad wrthoch chi y rhieni ymlaen llaw. Yn y gorffennol rydym wedi danfon ffurflen ganiatad bob tro y byddai eich plentyn yn mynd allan o'r ysgol i gymeryd rhan yn un o'r gweithgareddau yma. Bellach, erfynwn arnoch i lanw un ffurflen ganiatad yn unig am y flwyddyn. Wrth gwrs fe gewch wybod pan drefnir y gweithgareddau allanol yma a petaech am i'ch plentyn beidio a chyfranu am unrhyw rheswm yna mae'r hawl gennych i'w cadw yn yr ysgol. Bydd yr ysgol yn aildrefnu gweithgareddau eraill iddynt.

Petaech heb arwyddo'r ffurflen ganiatad mae 'na un yn gynwysiedig yn y llyfryn i chi. Fe fyddem yn ddiolchgar petaech yn medru ei arwyddo a'i ddanfon i'r ysgol cyn gynted ag sydd bosib.

Ysgol Gymunedol Trimsaran Community School

Prydiau Bwyd

Mae'r dewis gan eich plentyn naill ai i gael pryd o fwyd a ddarperir gan yr ysgol, dod a pecyn bwyd ei hunain neu i fynd adref i gael cinio.

Darperir bwyd i'r plant yng nghegin yr ysgol ac ar hyn o bryd mae 70% o blant yn cael cinio ysgol a'r gweddill yn dod a phecynau bwyd o'r cartref. Does neb o'r plant yn mynd adref i ginio.

Ar hyn o bryd mae pryd o fwyd yr ysgol yn costio £1.85 y dydd, sef £9.25 yr wythnos. Gellir talu am y prydiau gydag arian parod neu siec. Gwnewch y siec yn daliadwy i "Cyngor Sir Caerfyrddin" a danfonwch ef i'r ysgol ar fore Llun. Dylid ysgrifennu "Arian Cinio" yn glir ar yr amlen ynghyd ag enw'ch plentyn a'i ddosbarth.

Rhaid i'r pecynau cinio gael eu cadw mewn blychau addas – ac enw'r plentyn yn amlwg arno. Ni ddylid cynnwys poteli gwydr na diod twym ynddynt.

Os bydd eich plentyn yn colli cinio oherwydd tostrwydd ac mae wedi talu ymlaen llaw am y bwyd, yna rhoddir credyd iddo ar y cofrestr cinio yr wythnos ganlynol.

Petaech am hawlio cinio rhad cysylltwch â'n swyddog cinio ni, sef Mrs Irene Owens rhwng 8.45 a 10.00 y bore am unrhyw gyngor.

Gweithgareddau Chwaraeon

Darperir cyfleoedd i'ch plentyn i gymeryd rhan mewn sawl gweithgaredd yn ystod ei bywyd ysgol. Fe fydd rhai ynghlwm â'r cwricwlwm arferol ac eraill yn cymeryd lle adeg amser cinio neu ar ôl ysgol e.e. trawsgwlad, rygbi, pêl-droed, pêl-rwyd, nofio, athletau a rownderi ac ati.

Trefn y Dydd

Bore 9.00 y.b. tan 12.00 y.p.

Prynhawn 1.00 y.p. tan 3.30 y.p.

Mae dosbarthiadau'r Meithrin a'r Babanod yn dechrau am 9.10 y.b.

Peidiwch ag anfon eich plentyn i'r ysgol cyn 8.45 y.b. heblaw ei bod yn ymuno â'r Clwb Brecwast (o 8.15-8.45y.b.) Fe fydd athro ar gael i warchod eich plentyn o 8.45 y.b. ymlaen ond nid cyn hynny. Disgwylir i blant y Meithrin a'r Babanod ddod i'r ysgol yn nwylo oedolyn cyfrifol. Mae'n anheg i ddisgwyl brawd neu chwaer sy'n hyn na nhw i'w tywys i'r ysgol. Er mwyn diogelwch fe gloïr drysau'r ysgol am 9.20 y.b. ac fe dderbynir "marc hwyr" ar y gofrestr i unrhyw blentyn sy'n cyrraedd ar ôl yr amser penodedig yma – heblaw fod rheswm dilys ganddynt. D'yw cysgu'n hwyr ddim yn rheswm dilys!

Ysgol Gymunedol Trimsaran Community School

Ar ddiwrnodau gwlyb, warchodir y plant yn y brif neuadd tan fydd y gloch yn canu. 9.00 (Adran Iau) 9.10 (Babanod).

Gwisg Ysgol

Mae gwisg ysgol yn orfodol. Gellir ei archebu drwy Mrs Lynne Bridgewater, ysgrifenyddes yr ysgol. Gofynnwn i chwi wisgo eich plentyn yn y dillad yma:-

Merched

Sgert, ffrog binafor neu drowsus llwyd.

Sanau neu drywsanau gwyn/llwyd.

Crys polo melyn (gyda/heb arwyddlun yr ysgol).

Crys chwys/gardigan porffor yr ysgol (yn cynnwys arwyddlun yr ysgol).

Cardigan wedi'i wau gartref (porffor).

Esgidiau (dim esgidiau 'ffasiwn' na treiners).

Ffrog Haf (gingham porffor a gwyn).

Bechgyn

Trowsus llwyd (dim trowsus loncian na thracwisg).

Crys polo melyn (gyda/heb arwyddlun yr ysgol).

Crys chwys porffor (yn cynnwys arwyddlun yr ysgol).

Pâr o esgidiau synhwyrol (dim treiners).

Gellir archebu siwmperi, crysau chwys, cardiganau a chrysau polo o'r ysgol.

Ysgol Gymunedol Trimsaran Community School

Ymarfer Corff (Bechgyn a Merched)

Pâr o siorts (dewis y rhieni – ond dim siorts beicio).

Crys T (dewis y rhieni).

Bydd llawer o weithgareddau ymarfer corff yn cael eu gwneud yn droednoeth ond fe fydd angen esgidiau cynfas/esgidiau pêl-droed/rygbi arnynt hefyd.

Gofynir i blant â gwallt hir i glymu fe nôl yn y gwersi yma ac hefyd pan yn cwblhau tasgau mewn gwersi gwyddoniaeth, celf neu goginio. Dylid cadw'r gwallt yn daclus heb gymorth gel na gormodedd o glipiau, sleidiau a gleiniau gwallt.

Ni chaniateir gemwaith a cholur (gan gynnwys farnis ewinedd). Ni wisgir clustlysau i'r ysgol ar wahân i blant sy'n dewis gwisgo stydiau clust. Dylid tynnu'r stydiau allan mewn gwersi nofio neu ymarfer corff. Yr unig eithriad i'r rheol yma yw os yw'r tyllau yn y clustiau yn gymharol newydd yna gall y plentyn ei gwisgo ar yr amod ei bod yn eu gorchuddio â thâp cyn dod i'r ysgol. Gwaith y riant fydd hwn. Ar ddiwedd y wers nofio/ymarfer corff gall y tâp gael ei dynnu'i ffwrdd.

Caniateir i blant wisgo oriawr ond eu cyfrifoldeb nhw yw gofalu amdanynt. Nid yw'r ysgol yn gyfrifol am unrhyw golledion. **Ni chaniateir ffonau symudol na gemau electronig yn yr ysgol.**

Cofiwch farcio eiddo eich plentyn yn glir.

Ceir tipyn o wybodaeth am addysg eich plentyn yn y llyfryn yma felly cadwch e'n ddiogel er mwyn i chi gyfeirio ato yn y dyfodol.

Ysgol Gymunedol Trimsaran Community School

Nodyn Caniatad 2010-2011

Drwy gydol y flwyddyn academaidd fe drefnir gwahanol weithgareddau i'ch plentyn a disgwylir i chwi lofnodi nodyn caniatad cyn i hyn ddigwydd e.e. ymweliadau addysgiadol, cystadlaethau chwaraeon, ymweld ag eglwysi, lluniau grwp ac ati. Disgwylir i chi lofnodi'r ffurflen ganiatad yma ar ddechrau'r flwyddyn. (Gweler y ffurflen isod).

Parhawn i gadw mewn cysylltiad â chi ynglyn â holl weithgareddau eich plentyn. Os ydych am iddynt dynnu allan o unrhyw weithgareddau a fyddech mor garedig a chysylltu â ni cyn gynted ag sydd bosib. Bydd manylion yr ymweliad e.e. y gost, angen pecyn bwyd neu beidio ac ati yn cael ei ddanfon allan fel arfer.

Weithiau, ni fydd angen llofnod riant ar ambell ymweliad e.e. mynd am dro o gwmpas y pentref.

Hoffem eich sicrhau y bydd pob ymweliad yn cael ei oruchwylio'n dda a'ch plentyn yn ddiogel ar bob adeg.

Yn ddiffuant

S. Owen
Pennaeth

* *

Ysgol Gymunedol Trimsaran

Nodyn Caniatad 2010-2011

A fyddech mor garedig a llanw'r nodyn caniatad isod i'ch plentyn/plant. (Un i bob plentyn).

Enw ……. Dosbarth ……..

Rhoddaf ganiatad i'm mab/merch i gymryd rhan yn holl weithgareddau a digwyddiadau'r dosbarth/grwp am y flwyddyn academaidd 2010-2011.

Arwyddwyd gan …….
Rhiant/Gwarchodwr

Dyddiad ……..

(Deallaf y byddaf yn cael gwybodaeth ymlaen llaw o unrhyw weithgaredd/ddigwyddiad a gynllunir i'm plentyn. Medraf dynnu fy mhlentyn allan o unrhyw weithgaredd/ddigwyddiad petawn yn ysgrifennu nodyn/lythyr i'r ysgol ymlaen llaw h.y. cyn i'r weithgaredd/ymweliad/digwyddiad fynd yn ei flaen).

(Rhoddaf ganiatâd i lun fy mhlentyn cael ei gynnwys mewn grŵp/fel unigolyn a'i osod ar wefan yr ysgol).